OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3251 (Cy.286) (C.133)

CYFRAITH TROSEDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007

Gwnaed - - - - 13 Tachwedd 2007

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 53(5) o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Cychwyn

2. Mae paragraff 7(2) o Atodlen 9 i Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 i'r graddau y mae'n ymwneud ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, ac adran 22 o'r Ddeddf honno i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraff hwnnw, yn dod i rym ar 19 Tachwedd 2007.

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

13 Tachwedd 2007

(**1**) 2006 p.48.
(**2**) Mae pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 53(5) bellach wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).